

Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru

28 Gorffennaf 2023

Annwyl Rebecca Miller,

Ymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd

Diolch am gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'n hymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd. Ceir rhagor o fanylion am ein gwaith hyd yma ar ein [gwefan](#).

Mae'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chymryd hyd yma yn awgrymu ei bod yn ddyddiau cynnar o ran gweithredu dulliau iechyd y cyhoedd i atal trais ar sail rhywedd, gan gynnwys ymwybyddiaeth a hyfforddiant, er bod dealltwriaeth eang o'r mater. Fel y gwyddoch, mae "Gofyn a Gweithredu" yn bolisi gan Lywodraeth Cymru a weithredir drwy ganllawiau o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, sy'n ymdrin â phob math gwahanol o drais gan gynnwys cam-drin domestig ac anffurfio organau cenhedlu benywod. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r pwyntiau a ganlyn:

- Pa mor hyderus y mae'r gweithwyr iechyd proffesiynol yr ydych yn eu cynrychioli yn teimlo, a pha mor dda yw'r gefnogaeth y maent yn teimlo eu bod wedi'i chael, wrth allu cydnabod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol?
- A yw gweithwyr iechyd proffesiynol wedi cael yr hyfforddiant "Gofyn a Gweithredu"? Os felly, pa mor ddefnyddiol ydy i helpu eich aelodau i deimlo'n hyderus i holi ynghylch y materion hyn ac i ddarparu ymateb priodol ac atgyfeiriad?
- A allech chi hefyd nodi eich barn am ansawdd yr hyfforddiant arall y mae eich aelodau yn ei gael? Beth arall y mae angen ei wneud i sicrhau bod yr ymateb proffesiynol i gefnogi pob dioddefwr trais ar sail rhywedd yn gyson ledled Cymru?



Gan fod ein cyfnod casglu tystiolaeth yn dod i ben, byddem yn ddiolchgar cael eich ymateb erbyn 25 Awst 2023 os yw'n bosibl.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink on a light yellow background. The signature reads "Jenny Rathbone" in a cursive, flowing script.

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.